Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cynhyrchu a Rheoli Organig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **18 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Cynhyrchu a Rheoli Organig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")**

**<u>Y gyfraith sy'n cael ei diwygio</u>**

<u>Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys</u>

- Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynnyrch organig.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 889/2008 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynnyrch organig o ran cynhyrchu, labelu a rheoli organig.
- Cytundeb yr AEE

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth mewn perthynas â chynnyrch organig. Mae'r holl swyddogaethau sy'n ddarostyngedig i'r OS hwn yn cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru yn ddilyffethair.

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud diwygiadau a fydd yn galluogi i'r gyfraith sy'n ymwneud â chynnyrch organig barhau i fod yn gymwys ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.